ARFORDIR TREFTADAETH MORGANNWG
GLAMORGAN HERITAGE COAST

# Cadwch lygad a gwrando am fywyd gwyllt lleol ar hyd eich taith gerdded.

**Faint o wahanol blanhigion ac anifeiliaid y gallwch chi eu darganfod?** ***Ticiwch bob un wrth i chi ei weld...***



## Brain Coesgoch

*Pyrrhocorax pyrrhocorax*

Aelod o deulu'r brain yw'r frân goesgoch ac yn debyg i frain eraill, mae ganddi ben a chorff du. Ond yn wahanol i unrhyw frân arall, mae ganddi big a choesau coch. Aderyn acrobatig iawn yw'r frân goesgoch a gallwch ei gweld yn dowcio a phlymio drwy'r awyr.




## Llinos

*Carduelis cannabina*

Adar bach deniadol yw llinosod, yn enwedig y ceiliogod. Mae talcen a brest goch ganddyn nhw, gyda'r ieir yn fwy brown. Mae niferoedd y llinos wedi gostwng yn ddramatig dros y 40 mlynedd diwethaf ac erbyn hyn mae'n rhywogaeth warchodedig yn y DU.

**Os ydych wedi mwynhau'ch anturiaethau o gwmpas Ogwr a hoffech weld mwy, ewch at adran gerdded www.visitthevale.com a lawrlwytho copi o fapiau Llwybrau'r Fro.**




**Sganiwch yma ar gyfer mwy o hwyl i'r teulu...**

www.valeofglamorgan.gov.uk/familyfun


creative RURAL COMMUNITIES
VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG
LEADER
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government



## Glesyn Cyffredin

*Polyommatus icarus*

Fel mae'r enw'n ei ddweud wrthon ni dyma un o'r gloÿnnod glas mwyaf cyffredin yng ngwledydd Prydain. Glas llachar yw'r rhai gwryw ond gall y rhai beinw fod yn gymysgedd o las a brown neu weithiau maen nhw'n hollol frown.



## Briwydden Felen

*Galium verum*

Mae'r friwydden felen wedi cael ei defnyddio at lawer o wahanol bethau yn y gorffennol. Fel mae ei henw Saesneg, *lady's bedstraw,* yn ei awgrymu, roedd yn arfer cael ei defnyddio i stwffio matresi oherwydd ei bod yn lladd chwain. Roedd y friwydden felen hefyd yn cael ei defnyddio i gynhyrchu lliw oren caws *Double Gloucester.*

## Bwrned chwe smotyn

*Zygaena filipendulae*

Dyma wyfyn du sgleiniog sydd â chwe smotyn coch ar bob aden. Gallwch ei weld yn hedfan ar ddiwrnodau heulog poeth ac yn bwydo ar lwyth o wahanol flodau gan gynnwys y bengaled, ysgall a blodau eraill y glaswelltir.





## Teim gwyllt

*Thymus vulgaris*

Planhigyn blodeuol yw teim, ond mae'n fwya cyfarwydd fel perlysieuyn sy'n cael ei ddefnyddio mewn llawer o seigiau bwyd. Mae teim hefyd wedi cael ei ddefnyddio mewn meddyginiaeth lysieuol draddodiadol. Antiseptig yw e ac ar un adeg roedd yn cael ei ddefnyddio i drin toriadau croen. Heddiw, mae'n cael ei ddefnyddio mewn rhai cegolchion a dywedir bod te llysieuol wedi'i wneud o deim yn llesol wrth drin peswch.